

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 Tachwedd 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr, a elwir yn Omicron, wedi'i nodi mewn sawl gwlad. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder, oherwydd y nifer mawr o fwtaniadau y mae rhai ohonynt yn destun pryder.

O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y 'rhestr goch' o wledydd ond yn sgil yr angen i gael cytundeb cyfunol ar draws y DU, bu oedi o ran gosod Rheoliadau'r DU. I sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, dirymwyd y Rheoliadau.

Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, roedd modd i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau blaenorol cyn iddynt ddod i rym, gan barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol.

Yn dilyn datblygiadau pellach y noswaith honno a thrafod pellach ar draws y DU, ychwanegwyd Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y rhestr goch o wledydd ar 27 Tachwedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.